

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)

BIL YR ASIANTAETH YMCHWIL A DYFEISIO BLAENGAR

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (RhS) 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29.2 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd Cymru, neu at ddiben sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar ("ARIA") ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 2 Mawrth 2021. Gwnaed y Bil yn amodol ar gynnis cario drosodd ar 23 Mawrth, a gorffennodd Tŷ'r Cyffredin ystyried y Bil ar 7 Mehefin. Cynhaliwyd y darlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 8 Mehefin a'r ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 2 Tachwedd a chychwynnodd Cymal Pwyllgor yr Arglwyddi ar 17 Tachwedd. Ar 10 Tachwedd, cyflwynwyd nifer o welliannau i'w hystyried ym Mhwyllgor Tŷ'r Arglwyddi. Nid yw Llywodraeth y DU wedi derbyn y gwelliannau hynny eto. Mae disgwyl i'r Bil, os caiff ei basio, gael Cydsyniad Brenhinol yr yr hydref. Gellir gweld y Bil yma: <https://bills.parliament.uk/bills/2836>
3. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ond yn ystyried y gwelliannau hynny a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 10 Tachwedd; nid yw'n ystyried y gwelliannau a gafodd eu cyflwyno gan eraill heblaw'r Llywodraeth ar 10 Tachwedd. Byddant yn cael eu ystyried ar wahân os cânt eu gwneud yn rhan o'r Bil.

Amcan(ion) Polisi

4. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw gwireddu ei huchelgais, fel y'i cyflwynwyd yn Araith y Frenhines ym mis Rhagfyr 2019, ar gyfer "dull newydd o ariannu meysydd ymchwil a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg" a fydd "yn darparu cyllid hirdymor i gefnogi syniadau gwyddonol, peirianeg a thechnoleg risg uchel, uchel eu gwerth, ac [a fydd] yn ategu system ymchwil bresennol o'r radd flaenaf y DU."
5. Mae'r Map Trywydd Ymchwil a Datblygu yn y DU, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, yn nodi bwriad y Llywodraeth i gadarnhau safbwynt y DU fel uwchbŵer gwyddoniaeth. Disgrifiodd y Map Trywydd Ymchwil a Datblygu gynlluniau'r Llywodraeth i fuddsoddi £800 miliwn mewn corff ariannu unigryw ac annibynnol ar gyfer ymchwil uwch, wedi'i fodelu'n fras ar Asiantaeth Prosiectau Ymchwil Uwch yr Unol Daleithiau (ARPA). Mae creu ARIA yn rhan o ymrwymiad Adolygiad o Wariant 2020 i fuddsoddi £14.6 biliwn mewn ymchwil a datblygu yn 2021-22, gyda'r nod o gynyddu buddsoddiad yr economi gyfan mewn ymchwil a datblygu i 2.4% o gynnyrch domestig gros (GDP) erbyn 2027.

6. Fel y mae'r Map Trywydd yn ei nodi, bydd ARIA yn hyrwyddo gwaith ymchwil a datblygu blaengar a thrawsnewidiol sy'n bosibl iawn o fethu ond gall arwain at y buddion hirdymor mwyaf. Bydd ARIA "yn cefnogi technolegau arloesol ac ymchwil sylfaenol drwy arbrofi gyda modelau ariannu newydd ar draws gorwelion amser hirdymor" ac "yn buddsoddi mewn syniadau newydd a grymuso ymchwilwyr i gyflawni datblygiadau technolegol radical".

Crynodeb o'r Bil

7. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.
8. Mae'r Bil yn sefydlu ARIA ac yn gwneud darpariaeth i ARIA gynnal ymchwil wyddonol, neu gomisiynu neu gefnogi eraill i ymgymryd ag ymchwil o'r fath, ei datblygu a manteisio ar wybodaeth wyddonol, i gasglu, rhannu, cyhoeddi a datblygu'r wybodaeth honno ac i ddarparu cyllid wrth arfer ei swyddogaethau. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddarparu cyllid grant ar gyfer ARIA.
9. Gall ARIA ddatblygu a manteisio ar wybodaeth wyddonol a defnyddio ymchwil wyddonol at ddibenion creu prototeipiau neu gyflwyno cynhyrchion i'r farchnad. Gall ARIA gomisiynu neu gefnogi eraill i wneud yr un peth. Gall ARIA gymryd rhan ecwiti mewn cwmni y mae wedi ffurfio partneriaeth ag ef i gynnal ymchwil sylfaenol gyda'r bwriad o ddod â chynnyrch i'r farchnad. Gall ARIA barhau i ddarparu mewnbwn technolegol ar ôl i gynnyrch fynd i'r farchnad.

Y Diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf

10. Mae Llywodraeth y DU wedi cynnig gwelliannau penodol i'r Bil i ddileu'r diwygiad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), a fyddai wedi enwi ARIA yn Atodlen 7A, fel y byddai'n dod yn awdurdod penodol. Effaith hynny fyddai cadw cyfansoddiad a chyllid ARIA yn ôl i Lywodraeth y DU a Senedd y DU, a thrwy hynny gyfyngu ar bŵer cydamserol Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â Chymru) o dan adran 5 o Ddeddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965 ("STA 1965"), yn gyfnewid am lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ("yr MC") o'r enw '*Cytundeb ar Annibyniaeth yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar (ARIA)*'. Bwriad yr MC yw sefydlu'r egwyddor na fydd llywodraethau'r DU yn ymyrryd yng ngweithgareddau ARIA yn eu rhanbarthau, ac i ddarparu ar gyfer rhyw lefel o oruchwyliaeth gan Brif Gynghorwyr Gwyddonol y Llywodraethau Datganoledig, er nad yw hon yn ddogfen gyfreithiol rwyml.

Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

11. Mae'r gwelliant canlynol sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru wedi'i gyflwyno gan Lywodraeth y DU. Mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru ac fe'i cyflwynwyd i'w ystyried yn ystod cymal Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi:

Gwelliant i 'Ddiwygiadau Canlyniadol Atodlen 3' mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Cymru 2006: y prif welliant sy'n gysylltiedig â'r MC atodol hwn yw dileu'r pwerau a gedwir yn ôl a gynigir yn Atodlen 3:

YR ARGLWYDD CALLANAN: Tudalen 13, yn gollwng llinellau 15 i 30.

12. Dywed datganiad esboniadol yr Aelod: "Mae'r gwelliant hwn yn dileu'r gwelliannau a fyddai wedi trin yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Uwch fel mater wedi'i gadw yn ôl mewn perthynas â Chymru a bod y cyllid y byddai wedi'i chael drwy Ddeddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965 yn fater y tu allan i swyddogaethau Gweinidogion Cymru".
13. Bwriedir i ARIA fod yn sefydliad lefel y DU, yn debyg i Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) a'i Gynghorau Ymchwil. Yn wreiddiol, roedd y Bil yn cynnwys darpariaeth i wneud pwerau ariannu ARIA (ar gyfer gwyddoniaeth, ymchwil ac arloesi) yn "fater wedi'i gadw yn ôl" drwy ddiwygio paragraff 87 o Adran C11 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel bod ARIA yn eistedd ochr yn ochr ag UKRI a'r Cynghorau Ymchwil.
14. Yn dilyn trafodaethau a chytundeb mewn egwyddor rhwng Gweinidog yr Economi a BEIS, y Gweinidog dros Wyddoniaeth, Ymchwil ac Arloesi, cynigir y byddai gwelliant i'r Bil yn dileu'r paragraffau *Diwygiadau Canlyniadol Atodlen 3* a fyddai'n gwneud ARIA yn "fater wedi'i gadw yn ôl" o dan ddarpariaethau Deddf 2006. Cynigiwyd hyn gan Lywodraethau Datganoledig Cymru a'r Alban yn gyfnewid am yr argymhelliad bod Senedd Cymru a Senedd yr Alban yn rhoi cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil; derbyniwyd hyn gan Weinidog BEIS a chynigiwyd gwelliannau i'r perwyl hwn gan Lywodraeth y DU, felly maent yn debygol o gael cefnogaeth y Llywodraeth.
15. Byddai dileu'r diwygiadau arfaethedig i baragraff 1(2) o Atodlen 3A o Ddeddf 2006 yn y Bil hefyd yn golygu y bydd swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan adran 5 o STA 1965 yn parhau'n swyddogaethau cydamserol (fel y maent ar hyn o bryd) â'r Ysgrifennydd Gwladol. Prif bwnc y Bil yw ymchwil ac arloesi (defnyddir y term 'arloesi' ynghyd â'r term 'dyfais' yn y Bil fel disgrifydd ond 'arloesi' yw'r term a dderbynnir yn ehangach ac felly fe'i defnyddir yma), sy'n faes datganoledig o'r gyfraith.

Disgrifir y darpariaethau yn y Bil cyntaf y mae angen caniatâd ar eu cyfer yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf

Rhesymau ar gyfer gwneud y darpariaethau hyn i Gymru ym Mil ARIA

16. Bydd ARIA yn gorff newydd sydd â chylch gwaith ledled y DU gyda'r potensial i ariannu ymchwil a gwaith dyfeisio blaengar ledled y DU mewn modd a ddyffernir trwy gystadleuaeth ar sail teilyngdod. Nid yw'n disodli nac yn dyblygu unrhyw gorff presennol yn y DU a gadwyd yn ôl nac unrhyw gorff a sefydlwyd yng Nghymru, a byddai'n cynnig mwy o gyfle ar draws y DU. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau ym Mil ARIA o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru ac nid oedd y Bil, fel y cafodd ei ddrafftio'n wreiddiol, yn darparu

bod gan y llywodraethau datganoledig unrhyw ddylanwad ar weithgareddau ARIA. Mae'r sefyllfa bellach wedi newid gyda dileu'r diwygiadau i Ddeddf 2006 a'r cytundeb ar wahân ar gyfer yr MC a gynigir.

Safbwynt Polisi Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd

17. Diogelu pwerau Senedd Cymru yw ein safbwynt ni. Roedd Bil ARIA fel y'i cyflwynwyd yn ceisio cadw sawl pŵer yn ôl i Lywodraeth y DU o ran ymchwil ac arloesi yng Nghymru ac ystyriwn fod hyn yn annerbyniol. Mae dileu'r diwygiad i Ddeddf 2006 yn cadw pwerau Senedd Cymru a Gweinidogion Cymru fel y maent ar hyn o bryd, er y pwerau cydamserol i ariannu ymchwil a datblygu ac arloesi yng Nghymru sy'n deillio o STA 1965.
18. Mae dileu'r **cynnig newydd i gadw pwerau yn ôl** yn bodloni un o'r egwyddorion rydym wedi cytuno arnynt wrth ystyried rhoi cydsyniad Senedd Cymru i Filiau Llywodraeth y DU, h.y. y dylai Biliau Senedd y DU naill ai ddiogelu neu wella'r setliad datganoli presennol, yn hytrach na chadw pwerau yn ôl.
19. Fel arfer, ein barn ni fyddai y dylid cael gwared ar swyddogaethau cydamserol cyn gynted â phosibl. Er y byddai hynny'n ddymunol, credaf ei bod yn annhebygol y byddai Ysgrifennydd Gwladol BEIS yn cytuno i ddileu pwerau cydamserol sy'n deillio o STA 1965. Yn ein trafodaethau â Llywodraeth y DU, ystyriais y byddai'n dderbyniol rhoi consesiwn ar y swyddogaethau cydamserol er mwyn diogelu cymhwysedd Senedd Cymru.
20. Mae'r cais gwreiddiol am gyfranogiad llywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon y Deyrnas Unedig yn ARIA wedi'i fodloni'n rhannol drwy sefydlu'r MC sy'n sicrhau rhywfaint o ymwneud ag ARIA drwy Brif Gyngorydd Gwyddonol Llywodraeth y DU. Rydym yn cydnabod bod hyn yn wan o safbwynt ein hegwyddorion ond mae'n gyfaddawd er mwyn dileu'r diwygiadau fyddai'n cadw pwerau Ddeddf 2006 yn ôl. Mae'r MC hwn yn cael ei ddefnyddio i sicrhau ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i berswadio Llywodraeth y DU i newid wyneb y Bil ac mae hynny'n anarferol. Gellid dadlau bod hyn yn well defnydd o'r MC na'r nod nodweddiadol o sicrhau ymrwymiad gan Lywodraeth y DU yn lle newid wyneb Bil. Fodd bynnag, gyda mwy o amser, pe bai BEIS o blaid hynny, gallai'r MC fod wedi cael ei defnyddio hefyd i wella'n sylweddol trefniadau llywodraethu'r ARIA.
21. Rwyf wedi rhoi fy nghytundeb trwy lythyr i Weinidog Freeman i fwriad Llywodraeth y DU bod gweithgareddau ARIA yn annibynnol ar lywodraethau. Er y gellid dadlau nad yw'r cynigion o ran yr MC cyn gryfed ag y byddem yn ei ddymuno, yn enwedig gan nad yw'n gyfreithiol rwymol, mae'n adlewyrchu'r bwriad y dylai ARIA allu gweithredu gyda rhyddid cymharol ledled y DU.
22. Pan gytunais ar hyn, nid oedd gan Lywodraeth y DU lawer o amser i gyflwyno'r gwelliannau y gofynnwyd amdanynt i'r Bil. Cynhaliwyd yr ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 2 Tachwedd a chyflwynwyd gwelliannau i'r Bil ar 10 Tachwedd a chan fod y tair Llywodraeth Ddatganoledig wedi cytuno i'r cynigion, mae'r gwelliannau'n debygol o gael eu pasio gan y Tŷ Isaf.

23. Er nad yw'r MC yn ddelfrydol, ein prif flaenoriaeth a budd cyfansoddiadol yw sicrhau bod y cynnig i gadw pwerau yn ôl yn cael ei ddileu o'r Bil. Gwnaeth BEIS hi'n glir i mi fod hyn yn dibynnu ar gytundeb ar yr MC. At hynny, mae'n annhebygol iawn y bydd gan BEIS unrhyw awydd i fynd i'r afael â'r pwerau cydamserol presennol. Gan fod fy mhrif amcan wedi'i gyflawni, credaf mai'r cynnig a wnaed gan BEIS yw'r canlyniad gorau y gellid ei gael ac mae'n gyfaddawd synhwyrol o dan yr amgylchiadau.
24. O ran Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, y corff sydd wedi'i gadw yn ôl ar lefel y DU ar hyn o bryd yw Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI), a'i Gynghorau Ymchwil a Innovate UK. Sefydlwyd y corff hwn yn 2018 gan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (HERA 2017) fel corff a gedwir yn ôl ar gyfer y DU, ac mae ganddo bwerau i ariannu ymchwil ac arloesi yng Nghymru ochr yn ochr â gallu Llywodraeth Cymru i wneud yr un peth. Ar y pryd, gwnaed y ddadl gan y llywodraethau datganoledig y dylai bwrdd UKRI gynnwys cynrychiolwyr o'r gwledydd datganoledig, ac er i'r cynnig hwn gael ei wrthod ar gyfer yr holl wledydd datganoledig, roedd y ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaeth ei bod yn *"rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, wrth benodi aelodau UKRI, roi sylw i ddymunoldeb cynnwys ymhlith yr aelodau o leiaf un person â phrofiad perthnasol o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon."* Yn yr MC a gyflwynwyd i mi, mae BEIS wedi datgan y dylai Prif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth y DU ymgysylltu â Phrif Gynghorwyr Gwyddonol y Llywodraethau Datganoledig er mwyn cyfleu amgylchiadau, blaenoriaethau a strategaethau sy'n berthnasol i'r gwledydd hyn gan sicrhau o leiaf ryw lefel o ddylanwad sy'n adlewyrchu HERA 2017.

Goblygiadau ariannol

25. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ar gyfer Llywodraeth Cymru na Senedd Cymru o ganlyniad i'r Bil hwn.

Casgliad

26. Yn fy marn i, byddai'n briodol i Senedd Cymru roi ei chydsyniad i'r Bil hwn am ddau reswm: yn gyntaf, caiff y diwygiadau i Ddeddf 2006 eu dileu, gan gadw'r sefyllfa bresennol o ran cyrff a gedwir yn ôl o dan Adran C11 o Atodlen 7A o'r Ddeddf honno – mae hwn yn ganlyniad da i ddatganoli yr wyf wedi ymladd amdano; yn ail, mae'r MC yn dangos bwriad Llywodraeth y DU i ganiatáu o leiaf rhywfaint o ddylanwad i lywodraethau eraill ar lywodraethu ARIA.
27. Rwy'n argymhell felly bod Senedd Cymru'n cefnogi gwelliant Llywodraeth y DU i Fil ARIA ac yn rhoi ei chydsyniad ar yr amod bod y gwelliant penodol i'r Bil o ran cadw pwerau yn ôl yn cael ei wneud.

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi
24 Tachwedd 2021